ATODLEN >1

Symiau sydd i'w diystyru wrth gyfrifo incwm

# RHAN >1

## Symiau sydd i'w diystyru

**14.**—(1) Ac eithrio pan fo is-baragraff (2) yn gymwys, ac yn ddarostyngedig i baragraffau 45 a 46, unrhyw daliad perthnasol a wneir neu sy'n daladwy ar adegau rheolaidd ac eithrio unrhyw daliad sydd i'w ddiystyru o dan baragraff 30.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff 46, unrhyw daliad perthnasol a wneir neu sy'n daladwy ar adegau rheolaidd a fwriedir ac a ddefnyddir ar gyfer unrhyw eitem nas cymerwyd i ystyriaeth wrth asesu cost resymol diwallu neu sicrhau angen A am ofal a chymorth.

(3) Yn y paragraff hwn, ystyr "taliad perthnasol" ("*relevant payment*") yw—

(a) taliad elusennol;

(b) taliad gwirfoddol;

(c) taliad (nad yw'n dod o fewn paragraff (a) neu (b)) oddi wrth ymddiriedolaeth y mae ei chronfeydd yn deillio o daliad a wnaed o ganlyniad i unrhyw anaf personol i A;

(d) taliad o dan flwydd-dal a brynwyd—

(i) yn unol ag unrhyw gytundeb neu orchymyn llys i wneud taliadau i A; neu

(ii) o gronfeydd sy'n deillio o daliad a wnaed,

o ganlyniad i unrhyw anaf personol i A;

(e) taliad (nad yw'n dod o fewn paragraffau (a) i (d)) a gafwyd yn rhinwedd unrhyw gytundeb neu orchymyn llys i wneud taliadau i A o ganlyniad i unrhyw anaf personol i A.